

CANLLAWIAU

Plant agored i niwed a diogelu: y coronafeirws

Information about vulnerable children and safeguarding during the coronavirus pandemic.

Cynnwys

[Sut y dylem ddehongli'r term "plant agored i niwed" ar gyfer y ddarpariaeth mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant cofrestredig?](#)

[Beth sydd ar gael i ofalwyr ifanc?](#)

[Beth am blant eraill sydd o bosibl yn agored i niwed ond sydd heb weithiwr cymdeithasol?](#)

[Sut mae gweithwyr cymdeithasol yn cadw mewn cysylltiad gyda phlant agored i niwed?](#)

[Pa gymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc mewn gofal maeth neu'r rhai sy'n gadael gofal?](#)

[Beth sy'n cael ei wneud i gefnogi'r broses fabwysiadu a rhieni mabwysiedig?](#)

[Beth sy'n digwydd am benderfyniadau mewn llysoedd teulu?](#)

[Beth sy'n digwydd i sicrhau bod digon o weithwyr cymdeithasol ar gael i barhau i ofalu am blant agored i niwed?](#)

[A ddylai awdurdodau lleol gadw cofnod o bresenoldeb plant a phobl ifanc agored i niwed yn yr ysgol a lleoliadau gofal plant cofrestredig?](#)

[Beth sy'n cael ei wneud i helpu pobl ifanc a'r gweithlu mewn lleoliadau](#)

[preswyl?](#)

[Beth sy'n digwydd gyda phrentisiaethau iau?](#)

[Beth sydd ar gael i blant sy'n mynd i Ysgolion Arbennig?](#)

[Beth fydd disgwyl i'r awdurdodau lleol eu darparu i ddysgwyr sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig \(AAA\)?](#)

[Beth mae Colegau Addysg Bellach yn ei wneud i helpu dysgwyr?](#)

[Rwyf wedi bod yn derbyn gwasanaeth cwnsela drwy fy ysgol i gefnogi fy iechyd meddwl. A fydd modd i mi gyrraedd at y gwasanaeth hwnnw nawr bod yr ysgol ar gau?](#)

[Rwy'n poeni am yr effaith y mae aros gartref heb weld fy ffrindiau yn ei chael ar fy iechyd meddwl. Sut fedra i gael cymorth?](#)

[Mae fy mhlentyn yn dal i aros am ddatganiad AAA a/neu rwy'n mynd i driwlyd i gael datganiad AAA ar gyfer fy mhlentyn. A fydd yn cyfri fel plentyn agored i niwed ac yn medru mynd i'r ysgol a/neu leoliad gofal plant cofrestredig?](#)

[What should be done about infection control in schools and/or registered childcare setting for children who have complex needs?](#)

Sut y dylem ddehongli'r term “plant agored i niwed” ar gyfer y ddarpariaeth mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant cofrestredig?

Dylai pob plentyn sy'n medru derbyn gofal diogel gartref aros gartref, a dim ond os nad oes dewis diogel arall y dylai ddarpariaeth fod ar gael iddo mewn ysgol neu leoliad arall.

At ddibenion y ddarpariaeth mewn ysgolion a/neu leoliadau gofal plant cofrestredig, mae plant agored i niwed yn cynnwys y rhai sydd dan ofal gweithiwr cymdeithasol a'r rhai sydd â Datganiad o anghenion addysgol arbennig, Dylai'r rhai mwyaf agored i niwed gael eu blaenoriaethu gan awdurdodau lleol yn ôl y plant sydd fwyaf angen y ddarpariaeth.

At ddibenion y ddarpariaeth, mae'r rhai sydd dan ofal gweithiwr cymdeithasol yn cynnwys plant â chynlluniau gofal a chymorth neu gynlluniau cymorth, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal.

Beth sydd ar gael i ofalwyr ifanc?

Mae'r diffiniad o blant agored i niwed, sy'n cynnwys gofalwyr ifanc, yn golygu bod modd iddyn nhw ddefnyddio lleoliad priodol os oes angen cymorth ychwanegol, neu seibiant byr oddi wrth eu rôl gofalu. Bydd yr hyn sydd ar gael yn cael ei bennu gan bob awdurdod lleol yn ôl y ddarpariaeth sydd ar gael. Dylai rhieni/gwarcheidwaid gofalwyr ifanc gysylltu â'u hysgol leol, neu adran addysg eu hawdurdod lleol yn uniongyrchol. Y dewis delfrydol fyddai dilyn cyngor y llywodraeth ac aros gartref.

Gall gofalwyr ifanc gyrraedd at amrywiol wybodaeth a chyngor ar-lein, neu gymorth o fath arall. Gellir cael gafael ar hyn drwy'r awdurdod lleol, ac mae'r manylion cyswllt fel arfer ar wefan yr awdurdod lleol. Gellir cael cymorth hefyd gan sefydliadau cenedlaethol neu leol i ofalwyr.

Mae Gofalwyr Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer gofalwyr, ac maent i'w gweld yma: <https://www.carersuk.org/wales> (<https://www.carersuk.org/wales>)

Beth am blant eraill sydd o bosibl yn agored i niwed ond sydd heb weithiwr cymdeithasol?

Mae'n amlwg y gallai'r pandemig COVID-19 roi pwysau a straen ychwanegol ar deuluoedd. Mae'n hanfodol i deuluoedd sydd angen cymorth fwyaf gael y cymorth cywir yn brydlon.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf ar gael ym mhob awdurdod lleol ac yn rhoi cymorth cynnar i deuluoedd sy'n helpu i atal problemau rhag dwysau. Awdurdodau lleol sy'n cynnal y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ac mae'r broses atgyfeirio ar gael ar wefan awdurdodau lleol, ynghyd â llinell gyngor i deuluoedd neu weithwyr proffesiynol.

Sut mae gweithwyr cymdeithasol yn cadw mewn

cysylltiad gyda phlant agored i niwed?

Mae gweithwyr cymdeithasol yn dal i fod mewn cysylltiad gyda phlant a theuluoedd sy'n cael eu cymorth. Mae ffyrdd dyfeisgar o weithio wedi cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys er enghraifft gweld y plant o bellter diogel yng ngardd y teulu, neu'r dulliau arferol o gadw mewn cysylltiad o bell fel dros y ffôn.

Pa gymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc mewn gofal maeth neu'r rhai sy'n gadael gofal?

Mae Voices from Care wedi datblygu pecyn penodol o gymorth i'r rhai sy'n gadael gofal, sydd wedi'i ddsbarthu i awdurdodau lleol. Bwriedir i'r cymorth sy'n cael ei gynnig helpu gyda llesiant emosiynol drwy gynnig rhith ofod cymdeithasol. Mae hefyd yn darparu amrywiol gyngor a gwybodaeth ac fe fydd yn addasu'r gwasanaeth wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Mae'r cynnig i'w weld yma:

<http://vfcc.org.uk/coronavirus/> (<http://vfcc.org.uk/coronavirus/>)

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau'r canllawiau ynghylch Cronfa Dydd Gŵyl Dewi gan nodi y dylai awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n gadael gofal a allai fod yn dioddef caledi ariannol yn sgil colli incwm, anawsterau gyda chytundebau tenantiaeth, bwyd ac anghenion byw sylfaenol eraill.

Gellir gweld cyngor Llywodraeth Cymru i'r rhai sy'n gadael gofal ac sydd yn byw mewn llety rhent preifat yma: <https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-denantiaid-yn-y-sector-rhentu-preifat> (<https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-denantiaid-yn-y-sector-rhentu-preifat>)

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn estyn allan i gefnogi gofalwyr maeth ar draws Cymru, gellir gweld y cyngor a'r cymorth sydd ar gael yma: <https://www.thefosteringnetwork.org.uk/advice-information/coronavirus-covid-19> (<https://www.thefosteringnetwork.org.uk/advice-information/coronavirus-covid-19>)

Mae Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Cymru wedi cyhoeddi cyngor a chanllawiau ar gyfer gwasanaethau maethu, gan gynnwys cysylltiad teuluol:

www.afacymru.org.uk/supporting-effective-functioning-during-covid-19/
(www.afacymru.org.uk/supporting-effective-functioning-during-covid-19/)

Beth sy'n cael ei wneud i gefnogi'r broses fabwysiadu a rhieni mabwysiedig?

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi cyhoeddi canllawiau ar ei wasanaethau: <https://www.adoptcymru.com/news/update-on-our-services-in-the-current-covid-19-pandemic> (<https://www.adoptcymru.com/news/update-on-our-services-in-the-current-covid-19-pandemic>)

Daeth Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 i rym ar 1 Ebrill 2020, ond ni fydd camau gorfodi yn cael eu cymryd mewn perthynas ag unrhyw achos o dorri'r rheoliadau. Mae gohebiaeth wedi'i anfon at y sector ynghylch hyn.

Beth sy'n digwydd am benderfyniadau mewn llysoedd teulu?

Mae Llywydd yr Is-adran Teuluoedd wedi cyhoeddi canllawiau am gyflawni gorchmynion trefniadau plant (cyfraith breifat) yn ddiogel yn ystod y cyfnod hwn, sydd wedi'u dosbarthu i awdurdodau lleol:

<https://www.judiciary.uk/announcements/coronavirus-crisis-guidance-on-compliance-with-family-court-child-arrangement-orders/>
(<https://www.judiciary.uk/announcements/coronavirus-crisis-guidance-on-compliance-with-family-court-child-arrangement-orders/>)

Mae'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd hefyd wedi cyhoeddi canllawiau mewn perthynas â gweithrediad y llys teulu:

<https://www.judiciary.uk/coronavirus-covid-19-advice-and-guidance/>
(<https://www.judiciary.uk/coronavirus-covid-19-advice-and-guidance/>)

The Courts and Tribunals Service is providing regular updates

Mae'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn gyson, gan gynnwys eu blaenoriaethau a theclyn i ddangos pa

lysoedd sy'n parhau i weithredu:

<https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service> (<https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service>)

Mae'r Grŵp Hawliau Teuluoedd yn darparu cyngor am y cymorth sydd ar gael i deuluoedd yma: <https://www.frg.org.uk/> (<https://www.frg.org.uk/>)

Beth sy'n digwydd i sicrhau bod digon o weithwyr cymdeithasol ar gael i barhau i ofalu am blant agored i niwed?

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau y gall y gofal barhau ar gyfer plant agored i niwed os bydd COVID-19 yn cael effaith sylweddol ar y gweithlu. Mae hyn yn cynnwys, drwy ddeddfwriaeth frys y llywodraeth, caniatáu cofrestru brys ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar, er mwyn eu galluogi i ddychwelyd, ynghyd â gweithio gyda'r sector ar fyrder i weld pa ofynion y gellid eu llacio i ryddhau amser gweithwyr cymdeithasol heb amharu ar fuddiannau plant agored i niwed.

A ddylai awdurdodau lleol gadw cofnod o bresenoldeb plant a phobl ifanc agored i niwed yn yr ysgol a lleoliadau gofal plant cofrestredig?

Dylent. Mae'n hanfodol sicrhau fod plant a phobl ifanc agored i niwed yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn.

Dylai pob lleoliad gadw cofnod dyddiol o'r plant gweithwyr allweddol a'r plant a phobl ifanc agored i niwed sy'n bresennol. Bydd hyn yn creu cofnod presenoldeb at ddibenion diogelu ac yn caniatáu i ysgolion a/neu lleoliadau gofal plant cofrestredig ddarparu data cywir, cyfredol i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ynghylch nifer y plant a'r pobl ifanc sy'n bresennol yn ôl y gofyn.

Beth sy'n cael ei wneud i helpu pobl ifanc a'r gweithlu mewn lleoliadau preswyl?

Bydd cartrefi plant yn parhau i fod ar agor. Mae awdurdodau lleol yn gweithio i sicrhau fod ganddynt y gweithlu angenrheidiol i barhau i fod ar agor i wneud y gwaith hanfodol o ddiogelu plant agored i niwed. Mae cartrefi preswyl a chartrefi diogel i blant yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol ar gynlluniau i baratoi ar gyfer prinder staff o bosib ar lefel leol, ac mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar opsiynau i roi cymorth i ddarparwyr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyngor i gynorthwyo'r sector gofal, gan gynnwys cartrefi gofal, ynghylch sut i reoli eu gwaith o ddydd i ddydd:

<https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-leoliadau-gofal-cymdeithasol-neu-gymunedol-lleoliadau-preswyl> (<https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-i-leoliadau-gofal-cymdeithasol-neu-gymunedol-lleoliadau-preswyl>)

Mae'r canllawiau yn rhoi gwybodaeth fanwl am y camau penodol sydd angen eu cymryd wrth i staff gofal cymdeithasol a chymunedol ymweld â phobl yn eu cartrefi neu wrth ddarparu gofal i breswylwyr, boed gan yr unigolyn symptomau neu beidio. Bydd Cydwasanaethau'r GIG yn darparu cyflenwad o gyfarpar diogelu personol i awdurdodau lleol ar draws Cymru i'w dosbarthu i ddarparwyr gofal sy'n ymdrin ag achos pendant neu dybiedig o Covid-19.

Beth sy'n digwydd gyda phrentisiaethau iau?

Mae Colegau Cymru wedi cau eu hystafelloedd dosbarth ond maent yn parhau i addysgu drwy ddulliau amgen gan ddefnyddio ystafelloedd dosbarth ar-lein. Disgwylir i brentisiaid iau fynychu sesiynau ar-lein a chyflwyno gwaith lle bo'n briodol. Mae anogwyr dysgu yn cysylltu â'r dysgwyr hyn i gadarnhau fod popeth yn iawn o ran eu llesiant. Mae pob prentis iau oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim wedi cael eu hystyried a'r opsiynau wedi cael eu trafod. Mae cynlluniau gweithredu manwl am y dysgwyr hyn wedi'u rhannu gyda'r rhanddeiliaid perthnasol.

Mae rhai elfennau o'r cymwysterau galwedigaethol yn parhau i gael eu hystyried, ac fe fydd y cyngor yn cael ei rannu gyda'r dysgwyr yn rheolaidd.

Beth sydd ar gael i blant sy'n mynd i Ysgolion Arbennig?

Bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn parhau i wneud pob ymdrech i sicrhau darpariaeth briodol i fodloni gofynion eu dysgwyr yn y cyfnod anodd hwn.

Beth fydd disgwyl i'r awdurdodau lleol eu darparu i ddysgwyr sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)?

Rydym yn cydnabod bod y sefyllfa hon, na welwyd ei thebyg o'r blaen, yn golygu nad yw systemau cymorth yn gweithredu cystal ag arfer ar hyn o bryd. Rydym yn annog dull gweithredu ymarferol a hyblyg gan ddarparu gwasanaethau o bell lle bynnag y bo'n bosibl.

Lle bo modd, bydd anghenion dysgwyr â datganiad AAA yn parhau i gael eu diwallu. Dylai awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod darpariaethau a nodwyd yn y datganiad AAA yn cael ei gyflawni gan yr ysgol a/neu lleoliad gofal plant cofrestredig.

Beth mae Colegau Addysg Bellach yn ei wneud i helpu dysgwyr?

Dylai dysgwyr gysylltu ag adrannau gwasanaethau i fyfyrwyr unigol i gael gwybodaeth benodol, ond mae pob coleg yn awyddus i ddarparu'r cymorth gorau posib i bob dysgwr dan yr amgylchiadau hyn, na welwyd eu tebyg o'r blaen, gan gynnwys:

- Bydd teuluoedd sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn cael cymorth drwy amrywiol systemau gan gynnwys taliadau uniongyrchol i'w cyfrifon banc, talebau a chynlluniau pecyn bwyd.
- Mae dysgwyr sydd heb fynediad at gyfleusterau gartref wedi cael benthyg gliniaduron.
- Mae cymorth i fyfyrwyr yn cael ei ddarparu o bell dros y ffôn, drwy e-bost, Skype ac ati. Mae gweithwyr achos yn cysylltu'n rheolaidd gyda'u dysgwyr sy'n arbennig o agored i niwed.
- Mae gwasanaethau llyfrgell yn cael eu darparu ar-lein, gan gynnwys llinellau ffôn i gael gwybodaeth gan lyfrgellydd.

Rwyf wedi bod yn derbyn gwasanaeth cwnsela drwy fy ysgol i gefnogi fy iechyd meddwl. A fydd modd i mi gyrraedd at y gwasanaeth hwnnw nawr bod yr ysgol ar gau?

Tra bod ysgolion ar gau o ran darpariaethau addysg statudol, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r gwasanaethau cwnsela i sicrhau fod y sesiynau yn parhau ac yn cael eu darparu ar-lein neu dros y ffôn cyn gynted â phosib. Gall pobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth cwnsela ddisgwyl y bydd rhywun yn cysylltu dros yr wythnosau nesaf i roi rhagor o wybodaeth.

Rwy'n poeni am yr effaith y mae aros gartref heb weld fy ffrindiau yn ei chael ar fy iechyd meddwl. Sut fedra i gael cymorth?

Bydd nifer o bobl yn ei gweld yn anodd aros gartref, ond mae llawer o ffyrdd i gefnogi eich iechyd meddwl, Dywedwch wrth oedolyn yr ydych yn ymddiried ynddo am eich teimladau a thrafodwch ffyrdd o helpu'ch iechyd meddwl.

Gallwch ffonio, anfon neges destun neu anfon neges at MEIC, gwasanaeth dwyieithog rhad ac am ddim sy'n barod i wrando arnoch a'ch helpu i gael cymorth, beth bynnag sydd ei angen. Mae gwybodaeth ar eu gwefan hefyd am sut i ymarfer corff, ffordd wych o helpu gyda'ch llesiant emosiynol, yn ogystal â nifer o erthyglau a dolenni defnyddiol eraill.

Mae Childline yn wasanaeth arall sy'n rhad ac am ddim. Gall roi gwybodaeth, cyngor a chymorth, a chwmsela un i un gan weithwyr proffesiynol. Mae ganddynt gyngor ysgrifenedig ynghylch sut i ddygymod gyda'ch pryderon neu os fyddwch yn teimlo'n sâl, ac mae modd trafod yn Gymraeg.

Hefyd mae apiau ar ffonau symudol a all eich helpu gyda'ch llesiant, nifer ohonynt am ddim, a gallwch ddod o hyd iddynt yn llyfrgell apiau'r GIG.

Mae CALL yn llinell gymorth arall sy'n cynnig cymorth emosiynol 24/7 ac mae modd cyrraedd atynt dros y ffôn (0800 132 737) neu neges destun (81066).

Mae'r GIG yn dal i fod yma i'ch helpu, er bod y gwasanaethau dan fwy o bwysau nag arfer, felly dylech fedru cael cymorth drwy eich meddyg teulu os oes angen.

Mae fy mhlentyn yn dal i aros am ddatganiad AAA a/neu rwy'n mynd i driwyllys i gael datganiad AAA ar gyfer fy mhlentyn. A fydd yn cyfri fel plentyn agored i niwed ac yn medru mynd i'r ysgol a/neu leoliad gofal plant cofrestredig?

Os nad yw'r awdurdod lleol wedi cyhoeddi datganiad AAA eto ar gyfer eich plentyn, ni fydd yn dod yn awtomatig dan y diffiniad o blentyn agored i niwed at ddibenion mynd i'r ysgol a/neu leoliad gofal plant cofrestredig yn ystod yr argyfwng COVID-19. Os oes gan eich plentyn ddatganiad AAA, mae'r awdurdod yn parhau i fod yn gyfrifol am ei gynnal, ac mae hyn yn wir nes bod yr apêl i'r triwyllys wedi cael gwrandawriad a'i ddatrys.

What should be done about infection control in schools and/or registered childcare setting for children who have complex needs?

We appreciate that this is a very worrying time for parents and for staff working with children and young people with complex needs. It is important that decisions are made based on risk assessments - for both the learner and for the schools and/or registered childcare setting - and are informed by the latest public health and medical advice and guidance available. With support from government guidance and local partner agencies, leaders of schools and/or registered childcare settings are well-placed to make judgements about what is required in their settings, and we will support these decisions.

Cyhoeddwyd gyntaf

6 Ebrill 2020

Diweddarwyd ddiwethaf

6 Ebrill 2020

Rhan o

[Addysg a gofal plant: coronafeirws](https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws) (https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws)

[Diogelu plant](https://llyw.cymru/diogelu-plant) (https://llyw.cymru/diogelu-plant)
